# Trawma mawr: darparu gwasanaeth

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2016

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

**Mae canllawiau NICE yn rhoi cyngor ar y gofal a'r cymorth a ddylai gael eu cynnig i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal.**

Trawma mawr yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio anafiadau difrifol a allai achosi anabledd parhaol neu farwolaeth. Ymysg yr enghreifftiau o drawma mawr mae anafiadau difrifol i'r pen, yr asgwrn cefn neu'r frest, anafiadau a allai beri i unigolyn golli llawer o waed, a thoriadau cymhleth i'r esgyrn (fel torri'r asgwrn pelfig neu asgwrn wedi torri sy'n dangos drwy'r croen).

Mae'r wybodaeth hon yn esbonio'r cyngor rydym wedi'i lunio ar gyfer sefydliadau'r GIG a staff sy'n darparu gwasanaethau trawma mawr. Mae'n nodi'r gwasanaethau y dylai pobl eu disgwyl yn y GIG pan fyddant wedi cael trawma mawr, yn cynnwys gwasanaethau ambiwlans sy'n mynd â phobl i'r ysbyty, trosglwyddo gofal i dîm trawma'r ysbyty wrth gyrraedd yr ysbyty, a gwasanaethau ar gyfer trin trawma mawr yn yr ysbyty.

Nid yw'r wybodaeth hon yn cwmpasu popeth y mae gwasanaethau trawma mawr yn ei wneud, na sut y dylid trin anafiadau pobl pan fyddant wedi cael trawma mawr. Ceir rhagor o fanylion am ein cyngor ar drin trawma mawr, toriadau cymhleth i esgyrn, anafiadau i'r pen ac anafiadau i'r asgwrn cefn yng nghanllawiau eraill NICE.

Rydym hefyd wedi llunio gwybodaeth i'r cyhoedd ar beth y dylai oedolion allu ei ddisgwyl wrth ddefnyddio'r GIG, a cheir rhagor o wybodaeth am ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar wefan NICE.

## Penderfynu ble i fynd ag unigolyn sydd wedi cael trawma mawr

Mae dau fath o ganolfan sy'n trin pobl sydd wedi cael trawma mawr. Gelwir y rhain yn ganolfannau trawma mawr ac unedau trawma, a chânt eu hesbonio yn y blwch isod. Dylai timau ambiwlans gael rhestr wirio o'r enw 'adnodd brysbennu' i'w helpu i benderfynu ble i fynd â phobl. Dylai'r rhestr wirio hon gynnwys gwybodaeth am y math o anafiadau sydd gan yr unigolyn a'i gyflwr cyffredinol. Dylai ystyried anghenion y canlynol:

- pobl hŷn
- plant
- merched sy'n feichiog
- pobl sydd â salwch neu gyflwr arall eisoes
- pobl sy'n cymryd meddyginiaeth er mwyn atal torthenni gwaed (a elwir yn wrthgeulydd), a all gynyddu'r risg o waedu o anafiadau.

Dylai meddyg neu nyrs yn y ganolfan rheoli ambiwlans fod ar gael i roi cyngor i'r tîm ambiwlans.

Dim ond am ddigon o amser i roi'r driniaeth achub bywyd sydd ei hangen ar unwaith y dylai timau ambiwlans aros yn y digwyddiad.

### *Canolfannau trawma mawr ac unedau trawma*

Ysbytai arbenigol yw canolfannau trawma mawr sy'n rhoi gofal i bobl ag anafiadau difrifol. Mae unedau trawma wedi'u lleoli mewn ysbytai ac maent yn darparu gofal ar gyfer anafiadau llai difrifol. Dylid mynd â'r rhan fwyaf o bobl sydd wedi cael trawma mawr yn syth i ganolfan trawma mawr i gael triniaeth, yn hytrach nag uned trawma, hyd yn oed os yw'r ganolfan trawma mawr ymhellach i ffwrdd.

Weithiau, ni all y tîm ambiwlans roi'r driniaeth achub bywyd sydd ei hangen ar yr unigolyn yn lleoliad y digwyddiad. Os bydd hyn yn digwydd, ac os bydd yr uned trawma agosaf yn agosach na'r ganolfan trawma mawr, dylai'r tîm ambiwlans fynd â'r unigolyn i'r uned trawma i gael triniaeth frys. Yna, dylid symud yr unigolyn i ganolfan trawma mawr cyn gynted ag y bydd yn ddiogel gwneud hynny.

## Trosglwyddo gofal o'r tîm ambiwlans i dîm trawma'r ysbyty

Dylai timau ambiwlans ddefnyddio rhestr safonol i ysgrifennu gwybodaeth bwysig am yr unigolyn i'r tîm trawma yn yr ysbyty. Dylai gynnwys pob un o'r canlynol:

- Oedran a rhyw yr unigolyn. Dylai fod gan ganolfannau trawma mawr ac unedau trawma dimau arbenigol (a elwir yn dimau trawma pediatrig) i ofalu am blant.
- Pryd a sut y digwyddodd yr anaf (er enghraifft, damwain car neu ddisgyn oddi ar ysgol).
- Beth yw anafiadau'r unigolyn yn eu barn nhw.
- Pwls, pwysedd gwaed a churiad calon yr unigolyn, a ph'un a yw'n ymwybodol.
- Y driniaeth y maent wedi'i rhoi i'r unigolyn.
- Pryd y disgwylir iddo gyrraedd yr ysbyty.

- Unrhyw driniaethau y mae angen i'r ysbyty eu paratoi ar gyfer yr unigolyn, fel gwaed ar gyfer trallwysiad neu lawdriniaeth.

Dylid rhoi'r wybodaeth hon i dîm trawma'r ysbyty cyn gynted â phosibl.

## Symud pobl sydd wedi'u hanafu o un ysbyty i un arall

Dylai fod protocol (cyfres o reolau) ar gyfer symud pobl sydd wedi'u hanafu yn ddiogel ac yn gyflym o un ysbyty i un arall i gael triniaeth. Pan fydd penderfyniad wedi'i wneud bod angen symud unigolyn, dylai staff yr ysbyty sicrhau ei fod ar ei ffordd i'r ysbyty newydd o fewn 30 munud.

## Gwasanaethau ar gyfer pobl sydd yn yr ysbyty ar ôl cael trawma mawr

Dylai gwasanaeth trawma'r ysbyty gael ei arwain gan feddyg ymgynghorol y gellir cysylltu ag ef 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Dylai fod gweithiwr allweddol penodedig, uwch nyrs yn aml, i gydlynu gofal pob unigolyn yn yr ysbyty. Dylai'r gweithiwr allweddol gadw mewn cysylltiad â'r unigolyn, ei deulu a gofalwyr, a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n darparu gofal yr unigolyn. Dylai'r gweithiwr allweddol fod yn bresennol ar holl rowndiau'r ward a dylai sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei gefnogi ac y gall leisio ei safbwyntiau a'i ddewisiadau. Dylai hefyd wneud cynlluniau ar gyfer pan fydd yr unigolyn yn gadael yr ysbyty ac unrhyw driniaeth neu adsefydlu y gall fod eu hangen arno wedyn.

## Gwybodaeth a chymorth

### *Yn yr ysbyty*

Dylai fod protocol (cyfres o reolau) ynghylch rhoi gwybodaeth a chymorth i bobl sydd wedi cael trawma mawr a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Dylai rhywun o'r tîm trawma allu bod ar gael i ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt.

### *Plant ac oedolion y gall fod angen iddynt gael cymorth ychwanegol*

Os yw'r unigolyn sydd wedi cael trawma mawr yn blentyn neu'n oedolyn y gall fod angen cymorth ychwanegol arno (er enghraifft, am fod ganddo anabledd dysgu neu ddementia), dylid dynodi aelod o staff yr ysbyty i ofalu amdano a chysylltu â'i deulu neu ofalwyr.

### *Wrth symud i ysbyty arall*

Wrth symud pobl i ysbyty arall, dylid dweud wrthynt ble maent yn mynd, pam maent yn cael eu symud yno a phwy fydd yn gyfrifol am eu gofal yn yr ysbyty newydd (yn cynnwys manylion cyswllt). Dylai hefyd gael rhywfaint o wybodaeth ysgrifenedig am hyn. Dylent hefyd gael enw a manylion cyswllt yr unigolyn a oedd yn gyfrifol am ei ofal yn yr ysbyty cyntaf.

## Ffynonellau cyngor a chymorth

Mae rhagor o wybodaeth am wasanaethau trawma mawr ar gael yn NHS Choices. Gallwch hefyd siarad â'r Gwasanaeth Cyngor a Chysylltiadau Cleifion (PALS) os oes gennych gwestiynau neu bryderon am wasanaethau trawma mawr. Mae gwybodaeth am PALS a sut i ddod o hyd i'ch swyddfa PALS agosaf ar gael yn NHS Choices.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan sefydliadau eraill.

## Canllawiau eraill NICE

- Anaf i'r asgwrn cefn (2016) canllaw NICE NG41
- Trawma mawr (2016) canllaw NICE NG39
- Achosion o dorri asgwrn (cymhleth) (2016) canllaw NICE NG37
- Anaf i'r pen (2014) canllaw NICE CG176

ISBN: 978-1-4731-1831-7